**Rhif: WG50123**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Cynyddu’r uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl i oedolion.

RHAGFYR 2024

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-83625-835-3 ISBN Digidol

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad er mwyn ceisio barn ar gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl i oedolion.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol i'w priod ddinasyddion a aseswyd, naill ai yn eu cartref eu hunain, neu mewn lleoliad gofal preswyl, ac mae ganddynt ddisgresiwn i godi ffioedd am y gwasanaethau hynny. Gan nodi'r pwysau ariannol eithriadol cynyddol ar awdurdodau lleol, roedd y ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar y cynnig i ddiwygio'r rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n rheoli'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn codi ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl, sydd wedi'i bennu ar £100 ar hyn o bryd. Dim ond unigolion sy'n gallu talu uchafswm ffi wythnosol uwch a fyddai'n gwneud hynny a chaiff hon ei phennu drwy'r broses arferol, fel rhan o'r prawf modd ariannol a gynhelir gan awdurdod lleol unigolyn. Felly, ni fyddai'n ofynnol i bawb sy'n talu'r uchafswm ffi wythnosol o £100 ar hyn o bryd dalu swm uwch.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: dyfodolgofalcymdeithasol@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl i oedolion.

# Cynnwys

Cynnwys.......... 3
Crynodeb o'r Ymatebion.......... 4
Cefndir.......... 5
Yr Ymgynghoriad .......... 5
Ymatebion I'r Ymgynghoriad.......... 7
Ymateb Llywodraeth Cymru a'r Camau Nesaf .......... 27

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Cafodd yr ymgynghoriad ar gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl ei gyhoeddi ar-lein a'i ddosbarthu i amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol. Roedd pob un a ymatebodd i'r ymgynghoriad, i raddau amrywiol, yn rhanddeiliaid yn y sector gofal cymdeithasol.

Cawsom 96 o ymatebion. Roedd rhai o'r ymatebion wedi coladu sylwadau rhanddeiliaid mewn sector penodol ac nid oedd pob ymatebydd wedi gwneud sylwadau ar bob cwestiwn a godwyd yn y ddogfen ymgynghori. At hynny, ni roddodd rhai ymatebwyr atebion cadarnhaol neu negyddol uniongyrchol i bob cwestiwn. O dan yr amgylchiadau hyn, gwnaed pob ymdrech i ddehongli a chynnwys safbwynt bwriadedig yr ymatebydd yn y ffigurau a ddyfynnwyd yn y crynodeb hwn.

Dewisodd nifer bach o ymatebwyr ymateb drwy e-bost ac nid drwy'r ffurflen ymgynghori. Roedd yr ymatebion a gafwyd drwy e-bost yn amrywio o ran strwythur, gyda rhai yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad, a rhai yn rhoi sylwadau cyffredinol yn hytrach nag ateb pob cwestiwn. Roedd yr ymatebion hefyd yn amrywio'n sylweddol o ran hyd a faint o sylwadau a roddwyd, lle roedd rhai yn ymateb i bob cwestiwn, roedd llawer yn ymateb i rai cwestiynau'n unig, neu nid oeddent yn ymateb i unrhyw gwestiwn yn uniongyrchol ond yn rhoi sylwadau cyffredinol. O dan yr amgylchiadau hyn, lle y bo modd, mae'r ymatebion hyn wedi cael eu cynnwys o dan y cwestiwn perthnasol yn yr ymgynghoriad.

Gofynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr inni beidio â chyhoeddi eu manylion ac felly maent wedi'u nodi yn *'Ddienw'* er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae pob dyfyniad yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr iaith wreiddiol oni nodir fel arall.

Mae pob un o'r ymatebion wedi cael eu hystyried a'u dadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o unigolion â grwpiau â buddiant, fel a ganlyn:

| Math o ymatebydd | Nifer yr Ymatebion |
|---|---|
| Unigolion (aelodau o'r cyhoedd) | 49 |
| Pobl sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol neu sy'n cynrychioli | 24 |
| Pobl sy'n gweithio yn y trydydd sector/sector gwirfoddol neu sy'n ei gynrychioli | 20 |
| Pobl sy'n gweithio yn sefydliad darparwr gofal cymdeithasol neu sy'n cynrychioli sefydliad darparwr gofal cymdeithasol | 3 |

## Cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar newid arfaethedig sy’n ymwneud â chynyddu’r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, sydd wedi’i bennu ar £100 yr wythnos ar hyn o bryd. Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 13 Chwefror 2024 a 13 Mai 2024. Roedd y ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar ddiwygio’r rheoliadau a’r Cod Ymarfer sy’n rheoli’r ffordd y mae awdurdodau lleol yn codi ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd hefyd yn ceisio barn ar unrhyw effeithiau a fyddai’n digwydd pe bai’r uchafswm ffi wythnosol a godir ar hyn o bryd yn cynyddu.

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Yng Nghymru, roedd hon yn newid y ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn a sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy at y dyfodol.

Mae’r Ddeddf yn rhoi llais a rheolaeth i bobl dros y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau’r canlyniadau cadarnhaol i’w llesiant a goresgyn rhwystrau. Mae’n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar er mwyn atal anghenion rhag mynd yn gritigol. Mae’n hyrwyddo buddsoddi adnoddau yn y byrdymor, i roi’r gwerth gorau. Mae hefyd yn cynnig y dylid hyrwyddo’r broses o integreiddio iechyd a gwasanaethau gofal yn gadarnhaol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Rhan 4 a 5 o’r Cod Ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gyda’i gilydd yn nodi’r gofynion y mae’n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth benderfynu a ddylid codi ffi am wasanaethau gofal a chymorth a, hefyd wrth asesu cyfraniad y cleient tuag at y costau hynny. Un enghraifft o hyn:

Efallai y bydd unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth ac y mae angen gwasanaethau arnynt yn cael asesiad ariannol i asesu faint o arian y mae’n rhaid iddynt ei dalu am eu gofal.

## Yr Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a fersiwn hawdd ei deall ar dudalennau ymgyngoriadau gwefan Llywodraeth Cymru ac roedd fersiwn yn iaith arwyddion Prydain hefyd ar gael.

Gallai’r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a’u sylwadau ar-lein, drwy e-bost neu’r post, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg. E-bostiwyd y ddolen i’r ymgynghoriad at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau cynrychioliadol a chyrff proffesiynol i’r sectorau perthnasol.

Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion i’r 10 cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Er na all gofnodi pob sylw, mae’n ceisio cyfleu’r prif negeseuon. Roedd y ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad yn cynnwys 10 cwestiwn, sef wyth cwestiwn ar gynyddu’r ffi wythnosol ac effeithiau gwneud hyn, a dau gwestiwn ar effeithiau’r newid arfaethedig hwn ar y Gymraeg.

Mabwysiadwyd dull thematig i amlinellu sylwadau allweddol ymatebwyr mewn ymateb i’r cwestiynau. O dan y dull hwnnw ystyriwyd bod ‘thema’ yn sylw a grybwyllwyd fwy nag unwaith yn yr ymatebion. Mae’n bwysig nodi na ellir defnyddio amlder themâu allweddol i ddehongli cydbwysedd safbwyntiau yn yr un ffordd ag y gall cwestiwn caeedig ei wneud. Dylid nodi hefyd, lle mae cyfran o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau i gefnogi rhannau o gynnig, nad yw o reidrwydd yn dilyn bod y rhai nad ydynt wedi gwneud y sylwadau hyn yn gwrthwynebu’r rhannau hynny o’r cynigion. Mae’r ddogfen hon yn anelu at gyflwyno’r safbwyntiau a’r themâu cyffredinol a godwyd mewn ymateb i’r ymgynghoriad, yn hytrach na chrynhoi pob ymateb unigol.

Dim ond i Gymru roedd yr ymgynghoriad yn gymwys.

**Cwestiwn 1.1:**
Cynigir y cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 er mwyn cyfrif am y cyfraddau chwyddiant uwch a welir ledled y DU a thu hwnt, a sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i gynnal y gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir ganddynt, ac ansawdd y gwasanaethau hynny. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl yn cydbwyso'r angen i helpu i godi incwm ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn delio â phwysau ychwanegol o ran costau â bod yn deg ac yn fforddiadwy i bobl sy'n cael

### Ymatebion I'r Ymgynghoriad


### Crynodeb o'r Ymatebion

O'r rhai a gyflwynodd ymateb i'r cwestiwn ynghylch a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnydd;

- roedd 27% o'r unigolion yn cytuno ac roedd 68% yn anghytuno
- roedd 27% o'r trydydd sector yn cytuno ac roedd 58% yn anghytuno
- roedd 93% o'r awdurdodau lleol yn cytuno ac roedd 8% yn anghytuno

Mae Ffigur 1 yn dangos bod 47 o aelodau o'r cyhoedd, 24 o bobl sy'n gweithio mewn awdurdod lleol, a 19 o bobl sy'n gweithio yn y trydydd sector/sector gwirfoddol neu sy'n ei gynrychioli a thri o bobl o sefydliad darparwr gofal cymdeithasol wedi ateb y cwestiwn. Roedd 47% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl gael ei weithredu, gyda'r mwyafrif ymhlith y rhai a oedd yn ymateb yn gynrychiolwyr awdurdod lleol neu ddarparwr gofal cymdeithasol. Roedd 49% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn unigolion neu'n dod o'r trydydd sector/sector gwirfoddol.

Ffigur 1: Cytundeb ynglŷn â'r cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl




| | Unigolyn | Trydydd Sector / Sector Gwirfoddol | Awdurdod Lleol / Darparwr |
|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 21% | 16% | 78% |
| Cytuno | 6% | 11% | 15% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4% | 16% | 0% |
| Anghytuno | 11% | 11% | 4% |
| Anghytuno'n gryf | 57% | 47% | 4% |

Fel y dengys graff Ffigur 1, mae cryn amrywiaeth rhwng grwpiau. Roedd cyfran uwch o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol yn cytuno â'r cynnig nag aelodau o'r cyhoedd neu'r rhai a oedd yn cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol.


**Cwestiwn 1.2:**
Hoffem wybod eich barn ar y swm priodol y dylid cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl. Ar hyn o bryd mae'r swm wedi'i bennu ar £100 yr wythnos. Pa swm, os o gwbl, y byddech yn cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol fesul unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl?

**Crynodeb o'r Ymatebion**

P'un a oedd rhywun yn cytuno â'r cynnig (fel y'i hamlinellwyd yng Nghwestiwn 1.1 uchod) i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl yn dylanwadu'n fawr ar eu hymateb i Gwestiwn 1.2 ynglŷn â lefel y cynnydd. O'r 93 o bobl a ymatebodd i gwestiwn 1.1, dim ond 51 o'r rhain a ymatebodd i gwestiwn 1.2. O'r 40 o aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd, roedd 35 ohonynt yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, ac felly nid oeddent yn cefnogi unrhyw gynnydd. O'r 53 o aelodau eraill o'r cyhoedd a ymatebodd, roedd 63% o blaid cynnydd o £25.

Pobl a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol neu ddarparwyr oedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnydd uchaf ond nid oedd aelodau o'r cyhoedd na'r rhai a oedd yn cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol yn ei gefnogi. Fodd bynnag, ymatebodd cyfran uwch o gynrychiolwyr awdurdodau lleol i gwestiwn 1.2 am eu bod yn fwy cefnogol i'r cynnig ar y cyfan. Dangosir y canlyniadau hyn yn Ffigur 2.

Ffigur 2: Y cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol a ddewisiwyd



**Cwestiwn 1.3:**
Hoffem wybod eich barn ar y newid arfaethedig i'rcod ymarfer ar godi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol. Er eglurder, rydym yn cynnig y dylid diweddaru paragraff 5.1 o'r Cod er mwyn cyfeirio at y rheoliadau diwygio rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith yn 2024. Mae unrhyw ddiwygiad i'r Cod yn dibynnu ar reoliadau diwygio yn cael eu gwneud yn 2024, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Nodwch p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r newid arfaethedig i'r Cod a rhowch y rheswm dros eich ateb.


Er gwybodaeth: Rhan 5.1 Mae'n rhaid i'r Awdurdod ddilyn y rheoliadau wrth gynnal asesiadau ariannol a phenderfynu ar unrhyw ffioedd (Canllawiau para 5.1) ac wrth arfer ei swyddogaethau eraill mewn perthynas â chodi ffioedd.

## Crynodeb o'r Ymatebion

O'r 96 a ymatebodd, rhoddodd 89 ymateb i gwestiwn 1.3. O'r rhain, roedd 44 yn aelodau o'r cyhoedd, roedd 24 yn bobl a oedd yn cynrychioli awdurdod lleol, roedd 18 yn bobl a oedd yn cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol ac roedd tri o bobl a oedd yn cynrychioli darparwr gofal cymdeithasol. Ar y cyfan, roedd 43% o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddiweddaru paragraff 5.1 o'r Cod, h.y. ychwanegu cyfeiriad at y rheoliadau diwygio y cynigiwyd y dylent ddod i rym yn 2024. Fodd bynnag, roedd 43% o'r holl ymatebwyr yn anghytuno ac nid oedd 14% yn cytuno nac yn anghytuno.

Fel y dengys y ffigur isod (Ffigur 3), roedd pobl a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol a darparwyr yn fwy tebygol o gytuno â'r cynnig na'r rhai a oedd yn cynrychioli'r trydydd sector/sector gwirfoddol neu a oedd yn ymatebwyr unigol.

Ffigur 3: Cytundeb ynglŷn â'r newid arfaethedig i'r Cod




| | Unigolyn | Trydydd Sector / Sector Gwirfoddol | Awdurdod Lleol / Darparwr |
|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 16% | 11% | 52% |
| Cytuno | 11% | 17% | 30% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11% | 33% | 4% |
| Anghytuno | 7% | 6% | 4% |
| Anghytuno'n gryf | 55% | 33% | 11% |

**Aelodau o'r cyhoedd**
Roedd canfyddiadau ansoddol cwestiynau 1.1, 1.2 a 1.3 yn dangos nad oedd llawer o'r aelodau o'r cyhoedd yn cefnogi cynnydd ac roedd llawer o'r sylwadau yn canolbwyntio ar y pwysau cost cynyddol ar bobl ar incwm isel a'r canfyddiad bod ansawdd y gofal a roddir wedi dirywio dros y 10-20 mlynedd diwethaf.

Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar y costau cynyddol i bobl sy'n cael gofal a chymorth, megis bwyd, biliau cyfleustodau, gweithgareddau cymdeithasol a thrafnidiaeth, sy'n lleihau eu gallu i dalu am ofal cymdeithasol. Nododd llawer o aelodau o'r cyhoedd ei bod yn annheg bod y bobl a oedd yn agored i niwed mewn cymdeithas yn wynebu costau cynyddol, a dadleuodd rhai o blaid gofal am ddim, yn hytrach na chynyddu costau.

*"Dw i ddim yn credu bod unrhyw gynnydd yn deg i unrhyw un lle mae ei incwm yn dod o fudd-daliadau yn unig. Mae'r prawf modd presennol yn seiliedig ar lwfans isafswm incwm nad yw'n ystyried costau byw cynyddol ac sydd felly'n cosbi'r tlotaf.Pe bai'r prawf modd yn cael ei newid i asesiad tecach yna byddwn i'n cefnogi cynnydd gan na fydd £25 yn cael fawr ddim effaith ar safon byw rhywun sydd ag incwm hael ond bydd hyd yn oed £15 i rywun sy'n byw ar ei ben ei hun, ac sy'n cynnal tŷ o bosibl, ac sydd ag anghenion gofal mawr yn faich ofnadwy".*

O'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnydd, cyfeiriodd sawl un at y costau byw uwch a'r pwysau cost cynyddol a welwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, felly'r angen i gynyddu prisiau er mwyn diogelu gwasanaethau a ddarperir i bobl sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, cynigiodd un unigolyn, pe bai'n rhaid cynyddu'r ffi, y dylai hynny gael ei wneud yn raddol dros sawl blwyddyn.

*"Dylai'r ffigur gynyddu i adlewyrchu chwyddiant a chost gynyddol darparu gofal.Er y dylid canmol y Senedd am gyflwyno'r polisi hwn, yn syml, nid yw'r costau yn gynaliadwy. Mae angen i ni gynyddu'r ffi i tua £100 yr wythnos er mwyn adlewyrchu costau cynyddol."*

Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r aelodau o'r cyhoedd yn anghytuno â'r cynnig. Nodwyd y byddai'r newid yn effeithio'n annheg ar bobl a oedd wedi cynilo at eu hymddeoliad ac y byddai'n gosod baich ychwanegol ar bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Awgrymwyd na fyddai'r swm o arian y byddai'r newid hwn yn ei godi yn cael effaith sylweddol ar y pwysau ar y system gofal cymdeithasol ac y dylid ystyried opsiynau eraill.

*"Mae pensiynwyr a phobl anabl yn cael trafferth talu eu biliau, gwresogi eu cartrefi a bwyta. Bydd codi mwy am y gofal sydd ei angen arnynt yn golygu y bydd hyd yn oed llai o arian ganddynt i dalu am hanfodion."*

**Cynrychiolwyr awdurdodau lleol**
Gwnaeth bron pob cynrychiolydd awdurdod lleol a darparwr ddewis y cynnydd mwyaf posibl, sef £25. Disgrifiodd llawer o'r rhain sut roedd y cynnydd o £25 yn briodol, o ystyried costau cynyddol darparu gofal. Disgrifiodd ymatebwyr amrywiaeth o ffactorau a oedd yn ei gwneud yn gynyddol anodd i dalu am gostau.

*Mae ein rhagamcanion yn dangos fod poblogaeth oedran 65 oed am gynyddu dros 50% erbyn 2043, ac mi fydd hyn yn cael ardrawiad pellach ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau gofal a chymdeithasol. Cydnabyddir nad ydi'r uchafswm ffi gofal a chymorth amhreswyl wedi cynyddu gyda chwyddiant, a bod Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn rhoi amcangyfrif o werth cymharol nwyddau a gwasanaethau, yn nodi y byddai nwyddau a gwasanaethau oedd yn costio £100 yn 2020 yn costio £121.40 ym mis Hydref 2023. Ar y llaw arall, rydym yn gweld hon yn ddadl egwyddorol a moesegol anodd. Rydym yn sôn yma am drigolion mwyaf bregus ac anghenus y sir, ac mae toriadau ag adolygiadau anochel i wasanaethau fel gofal dydd a gwasanaeth cludiant eisoes yn cael effaith ar y garfan hynny o bobl."*

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo nad oedd y cynnydd yn mynd yn ddigon pell, ac na fydd yr arian a godir drwy'r cynnydd hwn yn ddigon i dalu am gostau cynyddol a'r galw cynyddol am ofal. Awgrymwyd bod angen cyllid ychwanegol i gynnal a gwella gwasanaethau. Nododd un ymatebydd y byddai adolygiad blynyddol, yn gysylltiedig â chwyddiant o bosibl, yn fwy priodol.

Fodd bynnag, er gwaetha'r cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r cynnydd o £25, teimlwyd y gall fod i'r cynnydd hwn rai goblygiadau anfwriadol. Nodwyd bod rhai pobl yn hepgor eu hasesiadau ariannol ar hyn o bryd, felly, pe bai cynnydd, efallai y byddai mwy o bobl yn gofyn am asesiad ariannol ac felly y byddai angen adnoddau ychwanegol ar gyfer hynny. Awgrymwyd hefyd, gan nad yw rhai ffioedd yn cael eu talu ar hyn o bryd, pe bai cynnydd, y gallai, yn syml, gynyddu'r symiau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol. Yn olaf, teimlodd un ymatebydd mai dim cynnydd oedd yn briodol.

Roedd llawer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a darparwyr yn teimlo bod y newidiadau arfaethedig yn glir, yn syml ac yn gwneud synnwyr. Nodwyd bod hwn yn newid teg o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a bod angen cynnal gwasanaethau ac y byddai unrhyw newidiadau y penderfynwyd arnynt yn gofyn am newid i'r Cod Ymarfer cyfredol a'r Rheoliadau.

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**

O gymharu ag aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, cymysg fu barn pobl a oedd yn ymateb ar ran sefydliadau yn y trydydd sector/sector gwirfoddol o ran y cynnydd. Gwnaeth saith allan o'r 19 o ymatebwyr nodi cynnydd arfaethedig, a oedd yn amrywio o rhwng £15 a £25. Gwnaeth y rhai a gynigiodd swm penodol gyfeirio at gostau cynyddol gofal oherwydd chwyddiant a'r angen am ddigon o gyllid i dalu am y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a darparwyr.

Roedd rhai yn teimlo bod cynnydd mewn ffioedd yn mynd yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru ac nad oedd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Awgrymwyd bod hyn yn anfoesegol ac yn ateb byrdymor, na fydd yn gwneud gwahaniaeth amlwg i'r gwasanaeth a ddarperir yn yr hirdymor, ond y gallai o bosibl arwain at sefyllfa lle nad yw pobl yn hawlio nac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Teimlwyd y bydd rhai pobl yn wynebu argyfwng o bosibl o ganlyniad i gynnydd, sy'n arwain at fwy o angen am gymorth yn ddiweddarach ac mewn mannau eraill yn y system ofal.

*“Er y cytunwn fod y pwysau deuol a achosir gan y galw cynyddol am gymorth ochr yn ochr â chostau cynyddol darpariaeth yn golygu system gofal cymdeithasol sy’n gwegian o dan y pwysau ac sy’n gofyn am ddod o hyd i ddatrysiad...nid dyna’r ateb.”*

O’r 18 o gynrychiolwyr o’r trydydd sector a ymatebodd i’r cwestiwn hwn, roedd pump yn cytuno neu’n cytuno’n gryf ac roedd saith yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf. O’r rhai a oedd yn cytuno â’r cynnig, derbyniwyd y byddai unrhyw newid mewn polisi yn gofyn am newid y Cod Ymarfer a’r Rheoliadau.

Fodd bynnag, teimlai rhai, pe bai’r Cod Ymarfer a’r Rheoliadau yn newid, fod newidiadau eraill a fyddai’n fuddiol i bobl. Y prif newid a ddisgrifiwyd yw’r ffordd y cyfrifir budd-daliadau anabledd fel incwm mewn asesiadau ariannol a phrofion modd. Awgrymwyd, oherwydd yr opsiynau cyfyngedig i bobl sy’n cael budd-daliadau anabledd, y gallai’r newid arfaethedig o bosibl arwain at sefyllfa lle mae pobl yn cael gofal, neu lle mae angen gofal arnynt, na allant ei fforddio.

*"Rydym yn bryderus am unrhyw gynnydd yn y ffi wythnosol am ofal amhreswyl ar ei ffurf bresennol sy’n cynnwys prawf modd am fod elfennau o fudd-daliadau anabledd fel y Taliad Annibyniaeth Personol (yr Elfen Bywyd Bob Dydd) a’r Lwfans Gweini yn cael eu cyfrif fel incwm. Ni chredwn y dylid cyfrif unrhyw ran o fudd-dal anabledd fel incwm gan fod y budd-daliadau hyn yn cael eu dyfarnu er mwyn cydnabod y costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â byw ag anabledd."*

Nododd rhai hefyd nad yw’r cynnig yn unol ag uchelgeisiau’r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Codwyd cwestiynau ynglŷn â’r gwrthdaro rhwng y cynnig a’r argymhellion i wneud gofal amhreswyl am ddim pryd a lle bynnag y bo’i angen.

Yn olaf, roedd rhai cynrychiolwyr o’r trydydd sector am sicrhau nad oedd unrhyw newidiadau a gyflwynwyd yn arwain at y problemau ynghylch asesiadau ariannol yn disodli egwyddorion cydgynhyrchu a phwysigrwydd canolbwyntio ar sgyrsiau ‘yr hyn sy’n bwysig’. Nododd ymatebwyr, ni waeth beth fo canlyniad yr ymgynghoriad, fod angen i unrhyw newid sicrhau bod hawliau pobl a’r hyn y gallant ei hawlio yn cael eu cynnal.

**Cwestiwn 2.1:**

Hoffem wybod eich barn ar Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

## Crynodeb o'r Ymatebion

### Aelodau o'r cyhoedd

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 32 o aelodau o'r cyhoedd, dewisodd 17 ei hepgor, ac ni chyflwynodd 10 unrhyw sylwadau na manylion roeddent am dynnu sylw atynt o ran Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig. Roedd aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi ateb cwestiwn 2.1 o'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu'r cynnydd ar y cyfan. Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â sut y byddai'r cynnydd yn cael ei roi ar waith a'r hyn a fyddai'n cael ei gynnwys yn yr asesiadau ariannol.

*"Fydd hyn ond yn effeithio ar y rhai sydd dros y terfynau cyfalaf ond nid yw'n ystyried cyfrifoldebau personol o hyd h.y. biliau, dyled ac ati."*

*"Ar hyn o bryd, mae rhai pobl yn talu'r uchafswm ffi er nad oes ganddynt yr arian i'w thalu am fod yr asesiad ariannol yn cynnwys pob budd-dal, gan gynnwys yr elfen gofal yn y Taliad Annibyniaeth Personol y mae ei angen i dalu am anghenion cymorth gwirioneddol eraill, na chânt eu diwallu gan yr awdurdod lleol."*

Codwyd pryderon hefyd ynglŷn ag effaith hyn ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u sefyllfa ariannol. Mynegwyd pryder pellach ynglŷn â'r hyn y gallai hyn ei olygu i'w gofalwyr hefyd.

*"Rwy'n credu bod angen gwneud mwy i liniaru effaith codi ffi ar bobl anabl a'r rhai sydd angen gofal a chymorth. Mae'n amlwg i ba raddau y mae'r grwpiau hyn yn ei chael hi'n anodd eisoes ac mae hyn yn mynd i'w gwneud yn dlotach."*

*"Rwy'n anghytuno'n gyfan gwbl â chodi ffi am ofal a chymorth amhreswyl. Mae'r mwyafrif o'r rhai sy'n cael y gwasanaethau hyn eisoes ar waelod y sbectrwm incwm.Ar adeg pan fo cynnydd cyffredinol mewn costau byw, dyma ran o'n cymdeithas sydd yn y sefyllfa waethaf i ymdopi ag unrhyw bwysau newydd."*

### Cynrychiolwyr awdurdodau lleol

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnydd ymhlith awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol. Roedd hyn o ganlyniad i esbonio sut y byddai'r asesiadau ariannol yn sicrhau na fyddai'n rhaid i'r rhai na allent fforddio'r cynnydd dalu, a hefyd ddeall, oherwydd cyfyngiadau ariannol mewn awdurdodau lleol fod angen y cynnydd hwn i helpu i ariannu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Teimlid hefyd fod Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig yn esbonio hyn yn glir, a bod gwybodaeth ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau pe bai ei hangen arnynt.

Er y teimlid bod digon o wybodaeth a chefnogaeth gyffredinol i'r cynnydd, roedd teimlad y byddai'n fwyfwy pwysig cyfleu'r hyn y mae'r newid yn ei olygu a sut y byddai'r

newid yn effeithio ar y rhai sy'n cael gofal.

Roedd awdurdodau lleol a darparwyr yn teimlo y byddai prosesau cyfathrebu da yn hanfodol am y gallai diffyg cyfathrebu ynglŷn ag unrhyw newid arfaethedig beri i'r rhai sydd angen gofal oedi cyn gofyn amdano.

Mae cynrychiolydd o awdurdod lleol yn dangos y cydbwysedd rhwng sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau sydd mewn sefyllfa fregus yn gallu talu digon heb fynd i drafferthion ariannol, a'r angen hefyd i awdurdodau lleol a darparwyr gael eu hariannu'n effeithiol: *"Mae'n rhaid bod awdurdodau lleol yn gallu fforddio rhoi gofal a chymorth i bobl ag anableddau, a chredwn y gellir gwneud hyn yn fwy cynaliadwy drwy godi lefel y cap ar ofal amhreswyl.Credwn fod problemau costau byw sy'n effeithio ar bobl anabl a gofalwyr yn llawer ehangach na'r cwestiwn ynghylch a ddylid codi lefel y cap ar ofal o £25.Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gwneud cynnig cadarnhaol o gymorth yn y gymuned a bod gofal ar gael i bobl ag anableddau a gofalwyr di-dâl, ac y bydd codi lefel y cap ar ofal yn cael effaith gadarnhaol ar hyn."*

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**

Roedd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli sefydliadau yn y trydydd sector yn teimlo y gellid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig, a bod angen ystyried ymchwiliad ychwanegol i effeithiau ehangach posibl.

*"Rydym yn pryderu na fu digon o ystyriaeth o effeithiau ehangach y polisi hwn. Nes bod y problemau ynglŷn â sut y caiff y broses o godi ffi ei hesbonio a'i chymhwyso, ni ddylid ystyried unrhyw newidiadau."*

*"Mae'r mater yn un ehangach na'r cwestiwn a oes angen rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith Integredig am nad yw'r dulliau presennol o godi ffioedd tecach yn ystyried yr agweddau cynnil ar gostau cynyddol i lawer o bobl hŷn yng Nghymru, fel y'i nodwyd mewn rhan arall o'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad."*

Yn fwy penodol, codwyd pryderon ynglŷn ag effaith y cynnydd ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl. Nodwyd hefyd fod defnyddwyr gwasanaethau yn debygol o fod mewn tlodi cymharol ac yn economaidd anweithgar o bosibl ac, o ganlyniad, y byddent yn gorfod gwneud dewisiadau o ran faint o ofal y gallent ei gael, gyda'r posibilrwydd y byddent yn gohirio cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Nododd ymatebwyr o'r trydydd sector hefyd ar yr asesiad a'r prawf modd a ddefnyddir i benderfynu faint o arian y byddai defnyddwyr gwasanaethau yn ei dalu. Roeddent yn teimlo bod anghysondebau ynghylch sut roedd yr asesiad yn cael ei gynnal rhwng y gwahanol awdurdodau lleol. Codwyd pryder hefyd ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol ar hyn o bryd a sut y gall hyn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, er enghraifft peidio â chynnwys ffioedd ychwanegol, a chostau byw.

*"Mewn egwyddor, os bydd yr asesiad ariannol yn cael ei gynnal yn deg ac os caiff yr effaith ar yr unigolyn ei hystyried, yna ni ddylai hyn achosi problem. Fodd bynnag, rydym yn gwybod drwy brofiadau bywyd ein haelodau a'n profiad ein hunain o weld canlyniadau deddfwriaeth arall, mae anghysondebau yn aml yn codi yn y ffordd mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu pan fydd polisi a deddfwriaeth yn cynnwys 'pwerau disgresiynol' neu amodau."*

*“Ym mhrofiad [y sefydliad], mae pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth yn awyddus i gadw staff da a lleihau trosiant, ac wedi gorfod talu ffioedd ‘ychwanegol’ i ofalwyr sy’n cael cyfradd isel yr awr gan yr awdurdod lleol. Nid yw’r gost hon bob amser yn cael ei hadlewyrchu mewn profion modd a, thrwy amryfusedd, gallai achosi i bobl wynebu caledi os bydd yn rhaid iddyn nhw wedyn dalu swm uwch.”*

Yn debyg i awdurdodau lleol, roedd un sefydliad yn y trydydd sector yn teimlo y bydd angen prosesau cyfathrebu ychwanegol er mwyn ceisio atal defnyddwyr gwasanaethau rhag oedi cyn gofyn am ofal. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg.

*“Bydd cyfathrebu’n effeithiol â’r cyhoedd yn allweddol i liniaru’r risgiau hynny, gan gynnwys ei gwneud yn glir nad oes modd codi ffi ar rywun am asesiad; bod y cynnydd yn bodloni’r prawf ‘teg a rhesymol’; ac mai dim ond y rhai sy’n gallu ei fforddio a fydd yn gorfod talu’r uchafswm ffi wythnosol.”*

*“Bydd negeseuon clir hefyd yn helpu i osgoi unrhyw ddryswch ar ôl i lefel y cap gael ei chodi ac yn rhoi mwy o amser i ddefnyddwyr gwasanaethau a’u gofalwyr ofyn am ragor o wybodaeth ac arweiniad cyn asesiad ariannol fel rhan o gynllunio ymlaen llaw.”*

Er gwaethaf y pryderon ynglŷn â’r cynnydd, roedd sefydliadau yn y trydydd sector a oedd yn deall y rhesymau dros ei gyflwyno.

*“Drwy ein hymwneud parhaus â phobl hŷn ledled Cymru rydym yn gwybod eu bod yn sylweddol bod y gyfundrefn ffioedd yng Nghymru yn decach na’r un yn Lloegr.”*

*“Mae cynaliadwyedd gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth yn hollbwysig ac mae hyn yn ychwanegu mwy o bwysau at yr angen i sicrhau bod y newidiadau sy’n cael eu gwneud i’r trefniadau presennol hefyd yn cynnwys y gallu i adolygu’r uchafswm ffi wythnosol am yn flynyddol.”*

**Cwestiwn 2.2:**

Hoffem wybod eich barn ar Adran 4 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

**Crynodeb o'r Ymatebion**

**Aelodau o'r cyhoedd**

Roedd aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi ateb cwestiwn 2.2 o'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu'r cynnydd ar y cyfan. Y rheswm oedd eu bod yn teimlo y byddai hyn yn effeithio ar 'y rhai yn y sefyllfa fwyaf bregus' ac y gallai fod goblygiadau wedyn o ran y gofal y maent yn ei gael. Gallai hyn gynnwys gorfod oedi cyn ceisio gofal neu ystyried trefniadau gofal nad ydynt yn addas iddynt o bosibl.

*"Rydych eisoes yn gwneud iddyn nhw a'u teulu ddioddef drwy eu gorfodi i dalu 100. Bydd codi'r trothwy yn fy atal rhag cael cymorth.Byddai angen i mi roi fy mam mewn cartref gofal."*

*"Mae'r argyfyngau costau byw wedi cael effaith enbyd ar ein pobl oedrannus a bydd costau cynyddol am ofal ond yn eu hynysu ymhellach a'u gwneud hyd yn oed yn dlotach."*

*"Rwy'n cytuno ag adroddiad Anabledd Cymru sy'n nodi bod rhai pobl anabl yng Nghymru wedi gorfod cwtogi ar dreuliau sy'n ymwneud ag amhariadau, sydd yn aml yn hanfodol. Mae'r taliad annibyniaeth personol i fod i dalu am yr anghenion ychwanegol hyn ond bydd cynyddu costau gofal yn golygu na fydd modd talu drwy ddefnyddio'r union fudd-dal sydd i fod i dalu am y costau hyn."*

Gwnaeth rhai aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r cwestiwn hwn i godi eu pryderon ynglŷn â gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol. Er nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad, mae'n dangos pryder y cyhoedd ynglŷn â gofal cymdeithasol yng Nghymru.

*"Mae diffyg cymorth cydgysylltiedig rhwng y gwasanaeth iechyd, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol a darparwyr cymorth eraill. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn arwain at sefyllfa lle mae pobl anabl yn llithro drwy'r rhwyd ac yn mynd i anawsterau ar eu pennau eu hunain."*

**Cynrychiolwyr awdurdodau lleol**

Roedd ychydig o'r awdurdodau lleol o'r farn bod angen mwy o wybodaeth o bosibl am y cysylltiad rhwng diystyriadau a chynnwys costau byw arferol, a hefyd dystiolaeth ynglŷn â'r effaith ar y rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac na allant hawlio budd-daliadau, yn ogystal â phobl o dan 65 oed lle y teimlid y byddai effaith anghymesur o bosibl.

*"Byddai'n ddefnyddiol o bosibl pe bai'r cysylltiad rhwng y swm cyfan sy'n cael ei ddiystyru a chostau byw arferol yn gliriach."*

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**
Roedd sefydliadau yn y trydydd sector a atebodd y cwestiwn hwn yn pryderu y byddai defnyddwyr gwasanaethau yn oedi cyn gofyn am ofal neu'n lleihau'r gofal roeddent yn ei gael ar y pryd oherwydd y cynnydd.

*"Mae Adran 4 o'r Asesiad Effaith Integredig yn nodi'n benodol ganfyddiadau adroddiad 'Barely Surviving' Anabledd Cymru a phrofiad un o'n haelodau a oedd wedi penderfynu peidio â chael gofal cymdeithasol mwyach oherwydd y costau. Gallwn gadarnhau nad yw'n broblem sy'n effeithio ar yr aelod hwnnw'n unig. Rydym wedi cael gwybod am lawer o achosion o ddiffyg mynediad at ofal cymdeithasol oherwydd costau ers hynny, neu fod pobl wedi gorfod cwtogi ar fathau eraill o ofal a chymorth er mwyn talu am ofal cymdeithasol."*

*"Mae [sefydliad] yn cytuno â'r pryderon a godwyd am ffioedd pellach i bobl y mae angen gwasanaethau gofal a chymorth arnynt; mae'r grŵp demograffig hwn eisoes yn tueddu i fod ar incwm is ac yn cael llai o gyfleoedd i gynyddu incwm er enghraifft, drwy waith neu hyfforddiant."*

Roedd sefydliadau yn y trydydd sector yn pryderu am effaith ganlyniadol oedi cyn cael gofal neu roi'r gorau iddo, a fyddai wedyn yn effeithio ar ofal cymdeithasol yn ddiweddarach, er enghraifft pe bai angen mathau mwy dwys o ofal, yn ogystal â'r effaith ar ofalwyr di-dâl o bosibl.

Codwyd rhai cwestiynau hefyd ynglŷn â'r asesiadau ariannol a ddefnyddir i benderfynu faint o ffi i'w chodi ar ddefnyddwyr gwasanaethau am eu gofal, a dadleuwyd bod angen i ffioedd adlewyrchu costau byw gwirioneddol, yn ogystal â chwestiynau ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gynnwys megis gofalwyr di-dâl a gwahanol fudd-daliadau.

*"Mae angen i'r prawf modd fod yn ddigon cadarn i sicrhau bod gwarant isafswm incwm yn adlewyrchu costau byw gwirioneddol, gan gynnwys y cynnydd diweddar mewn costau hanfodol megis bwyd a biliau cyfleustodau oherwydd chwyddiant."*

*"O dan gyfundrefn codi ffioedd tecach, mae budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd megis y Lwfans Gweini, yr elfen gofal o'r Lwfans Byw i'r Anabl, yr elfen bywyd bob dydd o Daliadau Annibyniaeth Personol, y swm ychwanegol oherwydd anabledd difrifol yn y Warant Credyd Pensiwn a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i gyd yn incwm a all gael ei gynnwys mewn prawf modd. Er bod llawer o fudd-daliadau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, cyfrifir chwyddiant drwy ddefnyddio fformiwlâu sy'n celu'r costau cynyddol i'r rhai yn y sefyllfa fwyaf bregus."*

**Cwestiwn 2.3:**

Hoffem wybod eich barn ar Adran 8 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

**Crynodeb o'r Ymatebion**

**Aelodau o'r cyhoedd**

Er na roddodd llawer o aelodau o'r cyhoedd unrhyw adborth penodol ar Adran 8 o'r Asesiad Effaith Integredig, mynegodd llawer bryderon ynglŷn ag ansawdd gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y materion hyn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o feysydd gofal cymdeithasol.

*"Diffyg gwasanaethau awtistiaeth yn gyffredinol neu wasanaethau y gallem eu defnyddio i gael cyngor hefyd. Mae gen i anabledd dysgu felly weithiau maen nhw'n anwybyddu'r ffaith bod gen i anghenion corfforol ac anghenion iechyd. Mae'n anodd talu am fy holl anghenion gofal."*

*"Cyfyngedig yw'r cymorth i bobl oedrannus, maen nhw'n teimlo eu bod wedi'u hynysu, ac mewn sefyllfa fregus heb sôn am orfodi talu mwy am eu gofal."*

*"Mae prinder gofalwyr gofal cartref. Fyddan nhw ddim yn cael mwy o gyflog i dalu am yswiriant car ychwanegol na chostau teithio. Pe baen nhw'n cael codiad cyflog, byddai mwy yn ymgymryd â swyddi ym maes darparu gofal a fyddai'n rhyddhau ysbytai a'r gwasanaeth ambiwlans ."*

Codwyd pryderon eraill ynglŷn â'r cynnig a'r asesiadau a ddefnyddir wrth benderfynu ar ffioedd gofal i'w codi, a nododd un unigolyn yr hoffai weld gwybodaeth ychwanegol yn Adran 8. Oni bai bod sail yr asesiad ariannol yn cael ei newid, yna bydd y gofyniad "*y bydd angen i'r awdurdodau lleol, wrth godi ffi am ofal amhreswyl, gynnal asesiad ariannol yn unol â'r rheoliadau a'r cod ymarfer perthnasol yn ddiystyr*."

**Cynrychiolwyr awdurdodau lleol**

O blith yr awdurdodau lleol a'r darparwyr gofal cymdeithasol a ymatebodd, hepgorwyd y cwestiwn gan 10 o awdurdodau lleol a darparwyr, ac ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau ychwanegol gan naw ohonynt neu roeddent yn teimlo bod digon o fanylion wedi cael eu rhoi, gan nodi bod digon o gyfle i roi adborth. Roedd rhai yn teimlo y gellid ymgynghori ymhellach o bosibl, yn bennaf ar y rhai sy'n cael budd-daliadau, pobl hŷn a'r rhai nad ydynt yn gwneud datganiadau.

*"Bydd y cynnig hwn yn effeithio ar rai o'r dinasyddion mwyaf agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio yng Nghymru, gan gynnwys pobl eiddil hŷn; gofalwyr; pobl ag anableddau a salwch hirdymor, gan gynnwys salwch meddwl, niwrowahaniaeth a phobl sy'n camddefnyddio sylweddau."*

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**

Mynegwyd pryderon gan y trydydd sector y gall codi lefel y cap weithio'n groes i ymrwymiadau a nodau ehangach Llywodraeth Cymru, megis Deddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â darparu gofal am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen.

Codwyd pryderon ynglŷn ag effaith y lefel uwch ar bobl hŷn yn enwedig.

*"Yn ôl pobl hŷn, y tri phrif faes lle maen nhw wedi cwtogi yw: Ynni (84%), Siopa bwyd (83%) a Gweithgareddau cymdeithasol (65%)… Cred y Comisiynydd y byddai cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol yn golygu, fel yr awgryma'r Asesiad Effaith Integredig drafft, y byddai mwy o bobl hŷn yn cael trafferth talu costau bywyd bob dydd yn ogystal â chost gofal ac y byddai mwy o bobl hŷn yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i'w pecynnau gofal neu i beidio â'u derbyn. Nid yw'r Comisiynydd felly yn ei gefnogi."*

**Cwestiwn 2.4:**

Hoffem wybod eich barn ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol. A oes unrhyw gostau a/neu fanteision penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

**Crynodeb o'r Ymatebion**

**Aelodau o'r cyhoedd**

Er na wnaeth dros hanner yr aelodau o'r cyhoedd sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol, gwnaeth pob aelod o'r cyhoedd a ymatebodd sylwadau negyddol, gan godi pryderon ynglŷn â fforddiadwyedd gofal a'r ffordd nad oedd costau byw yn cael eu hystyried. Roedd materion ariannol yn thema gyffredin drwy'r sylwadau i gyd.

Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â safon y gofal a ddarperir a sut mae prisiau yn cynyddu er *"na ddarperir gwasanaeth sy'n addas ar gyfer pobl oedrannus a phobl anabl".*

**Cynrychiolwyr awdurdodau lleol**

Er na wnaeth dros hanner yr awdurdodau lleol/ darparwyr gyflwyno sylwadau na safbwyntiau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol, un thema gyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd cynnal asesiadau ariannol a sut y byddai hyn yn gosod straen ariannol ychwanegol ac yn straen ar adnoddau staff.

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**

Ni chynigiodd dros hanner yr ymatebion o'r sector cyhoeddus unrhyw sylwadau pellach ond roedd materion ariannol, unwaith eto, yn thema gyffredin, yn enwedig o ran fforddiadwyedd gofal a pheidio ag ystyried costau byw yn y broses asesu ariannol. Un pryder cyffredin oedd diffyg fforddiadwyedd gofal a arweiniodd at ddiffyg mynediad at ofal. Fodd bynnag, ymddangosai fod rhai ymatebwyr yn deall y sefyllfa a'r angen i godi arian, ond eu bod yn anghytuno mai hon oedd y ffordd i wneud hynny.

**Cwestiwn 2.5:**

Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y cynnydd arfaethedig yn yr uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Crynodeb o'r Ymatebion**

**Aelodau o'r cyhoedd**

Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau gan fwy na hanner yr aelodau o'r cyhoedd, ond roedd tua un bob pum aelod o'r cyhoedd yn meddwl na fydd y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr eraill sylw at bwysigrwydd sicrhau mynediad at ofal yn newis iaith pobl a hefyd recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i helpu yn hyn o beth.

*"Os oes disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau dalu premiwm ychwanegol wedyn maen nhw'n haeddu'r hawl i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Ni ddylai'r cyfrifoldeb hwn fod ar y gofalwyr presennol i ddysgu a dylai fod mwy o gyfrifoldeb ar y llywodraeth a'r cynghorau i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r rolau hyn."*

**Cynrychiolwyr awdurdodau lleol**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blith yr awdurdodau lleol o'r farn na fydd y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion yn cael effaith gadarnhao na negyddol ar y Gymraeg. Ni wnaed unrhyw sylwadau gan un o bob pump.

Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r effeithiau ariannol cadarnhaol ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r newidiadau a sut y gall hyn helpu i roi mwy o gyfleoedd i gefnogi'r Gymraeg.

*"Yr effaith gadarnhaol yw y bydd Awdurdodau Lleol yn cael mwy o gyllid i fynd i'r afael â chostau cynyddol gofal ac i gefnogi'r rhai â mwy o angen. Er na fydd hyn yn unioni'r diffyg ariannol y mae Awdurdodau Lleol yn ei wynebu bydd yn helpu i ryw raddau."*

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**

Ni wnaed unrhyw sylwadau gan ychydig o dan hanner y sefydliadau yn y trydydd sector, ond roedd bron chwarter ohonynt o'r farn na fydd y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

Un thema gyffredin ymhlith yr ymatebwyr o'r trydydd sector oedd y dylai pobl gael gofal yn eu dewis iaith ac y dylid sicrhau *"nad yw defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg yn agored i gael eu hesgeuluso na gofal is na'r safon oherwydd rhwystr ieithyddol".* Tynnodd rhai sylwadau sylw at bwysigrwydd gallu defnyddio'r Gymraeg

gyda chleifion â chyflyrau penodol megis dementia, a’r ffordd y byddai’r gallu i siarad yn eu hiaith gyntaf o bosibl yn eu helpu i deimlo’n gysurus.

**Cwestiwn 2.6:**
Yn eich barn chi, a allai'r cynnydd arfaethedig yn yr uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion gael ei lunio neu ei newid er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Crynodeb o'r Ymatebion**

**Aelodau o'r cyhoedd**
Ni wnaed unrhyw sylwadau gan dros hanner yr aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd a nododd tua un o bob pump na fyddai'r newidiadau a gynigiwyd i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol i wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion yn cael unrhyw effaith.

Y brif thema ymhlith yr ymatebwyr eraill oedd y dylai iaith fod yn ddewis i bobl.

*"Dylid sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o bob trafodaeth neu ddatblygiad a bod y dewis a'r ddarpariaeth iaith ar gael i bob unigolyn."*

Gwnaed ychydig o sylwadau yn gofyn am ganolbwyntio ar ofal yn hytrach nag iaith.

**Cynrychiolwyr awdurdodau lleol**
Ni chyflwynwyd sylwadau gan draean o'r awdurdodau lleol a'r darparwyr a ymatebodd ond nododd dros hanner yr ymatebion gan awdurdodau lleol na fyddai'r newidiadau arfaethedig i'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion yn cael unrhyw effaith. Roedd y sylwadau eraill gan ymatebwyr yn ymwneud â sut na ddylai cost effeithio ar ddewis iaith.

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**
Ni chyflwynwyd sylwadau gan ychydig o dan hanner y sefydliadau yn y trydydd sector a ymatebodd ond nododd bron chwarter y sefydliadau yn y trydydd sector na fyddai'r newidiadau arfaethedig i'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion yn cael unrhyw effaith.

Roedd y prif feysydd lle y cafwyd sylwadau yn ymwneud â hyfforddiant Cymraeg a staff sy'n siarad Cymraeg, mynediad at ofal a'r ffordd na ddylai costau ffafrio iaith.

**Cwestiwn 3.1:**

Diolch am roi o'ch amser i ateb ein cwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cynnig, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

**Crynodeb o'r Ymatebion**

**Aelodau o'r cyhoedd**

Ar y cyfan, manteisiodd aelodau o'r cyhoedd ar y cyfle hwn i gyflwyno safbwyntiau negyddol pellach ar y cynigion. Un o'r prif resymau a nodwyd yn y sylwadau oedd sut y byddai hyn yn effeithio ar y rhai sy'n llai abl i dalu, megis y rhai sy'n cael budd-daliadau. Teimlwyd y gallai'r pwysau ychwanegol o ganlyniad i unrhyw gynnydd mewn costau gofal gael effaith ddifrifol ar lesiant pobl a'u gallu i fforddio gofal. Cydnabuwyd y gallai rhai pobl fforddio'r cynnydd hwn, ond y bydd y rhai sy'n cael budd-daliadau neu sy'n byw gydag anabledd yn wynebu caledi, a hynny'n annheg.

*"dylid ystyried yr anhawster y mae pobl anabl eisoes yn ei wynebu a pheidio â chynyddu'r ffioedd gan y byddwch yn achosi hyd yn oed mwy o anhawster ariannol iddyn nhw, yn enwedig y rhai ag anabledd difrifol sydd â galluedd meddyliol cyfyngedig neu sydd heb unrhyw alluedd meddyliol."*

Mater sy'n gysylltiedig â phobl sy'n byw gydag anableddau yw'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynnal asesiad ariannol ar hyn o bryd. Nododd rhai fod angen darparu gofal am ddim i bawb, a bod y ffordd y defnyddir profion modd ar hyn o bryd yn annheg. Roedd rhai yn teimlo mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am dalu costau gofal, nid pobl sy'n cael gofal. Er bod rhai pobl yn derbyn bod costau gofal yn cynyddu, a bod angen cyllid ychwanegol, nododd rhai na fydd y ffioedd cynyddol yn codi digon o arian i wneud gwahaniaeth sylweddol.

*"Ni fydd hyn codi'r 40 miliwn a mwy y mae angen i bob cyngor ei adhawlio. Alla i ddim gweld pam maen nhw hyd yn oed yn gwneud hyn. "*

Yn ychwanegol at hyn, un o'r prif feysydd a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd oedd mynediad at ofal ac ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Nododd rhai fod y gofal sy'n cael ei ddarparu yn annigonol, neu fod heriau yn codi wrth geisio dod o hyd i ofal neu gael y gofal cywir. Efallai y bydd y newid hefyd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, megis baich gwaith cynyddol i weithwyr cymdeithasol neu sefyllfaoedd lle mae pobl yn oedi cyn ceisio gofal sy'n golygu y bydd angen gofal dwysach yn ddiweddarach.

*"Bydd costau i awdurdodau lleol weinyddu polisïau codi ffi. Mae'r rhai sy'n cynnal yr asesiad ariannol hefyd yn asesu, yn trefnu, ac yn darparu gwasanaethau. Mae nifer y swyddogion hyn eisoes yn gyfyngedig a dylent gael eu rhyddhau i ymgymryd â'u prif gyfrifoldebau gwaith cymdeithasol.Bydd costau hefyd i wasanaethau refeniw, gan gynnwys asesu, cyfrifo, bilio a chasglu dyledion.Ni ddylai'r costau hyn i awdurdodau lleol gael eu tanamcangyfrif."*

**Cynrychiolwyr awdurdodau lleol**

Roedd sylwadau cynrychiolwyr awdurdodau lleol o blaid y cynnydd ar y cyfan. Mewn rhai sylwadau disgrifiwyd yr angen dybryd am y cynnydd i dalu cost gynyddol darparu gofal. Roedd rhai hyd yn oed yn teimlo nad oedd y newidiadau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell, ac y dylai ffioedd a threuliau eraill gael eu hystyried. Pwysleisiwyd bod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol cynyddol heriol, a bod angen incwm ychwanegol.

Mewn rhai o'r sylwadau gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol cynigiwyd proses adolygu flynyddol er mwyn gallu cyfrif am chwyddiant. Gallai'r broses adolygu flynyddol hon hefyd helpu awdurdodau lleol i gynllunio a chyfleu newidiadau i bobl sy'n cael gofal. Crybwyllir hefyd y gymhariaeth rhwng Cymru a Lloegr.

*"Mae pwynt ehangach yn codi, sef bod y gyfundrefn ffioedd yng Nghymru yn llawer mwy hael na'r un yn Lloegr, ac er bod hyn yn hynod fuddiol i'r rhai sy'n byw yng Nghymru, a hynny'n gwbl gyfiawn, mae potensial y byddai'n hyrwyddo twristiaeth Iechyd trawsffiniol a all gyfrannu at ddwysáu dynameg poblogaeth sy'n heneiddio yn y tymor canolig."*

Cymysg fu barn y bobl a ymatebodd ar ran darparwyr gofal cymdeithasol. Er bod un yn teimlo bod angen gwneud newidiadau ar fyrder er mwyn talu am gyflogau staff ac osgoi mynd yn fethdalwr, nododd y llall ei bod yn bosibl y bydd pobl yn lleihau faint o ofal y maent yn ei gael am resymau fforddiadwyedd.

*"Fy mhryder yw y byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau leihau eu pecynnau gofal am na allant fforddio'r ffi uwch. Byddai hyn yn risg i gynaliadwyedd ein busnes."*

**Cynrychiolwyr y trydydd sector**

Cyflwynwyd 17 o ymatebion ar ran sefydliadau yn y trydydd sector. Mynegodd rhai o'r sefydliadau hyn farn gadarnhaol ynglŷn â'r cynnydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr angen am gyllid ychwanegol i gadw mynediad at wasanaethau. Nododd rhai ymatebion y pwysau ariannol ar awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach, sy'n gwneud y broses o ddarparu gofal cymdeithasol yn gynyddol anghynaliadwy. Cynigiodd rhai fod angen mwy o fuddsoddiad mewn gweithgarwch atal er mwyn helpu i leihau'r gost gyffredinol i'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod angen ystyried yn ehangach sut yr ariennir gwasanaethau cymdeithasol, ac na fyddai'r ffi uwch yn ddigon i wneud gwahaniaeth sylweddol i sefyllfa ariannol awdurdodau lleol.

Roedd llawer o'r ymatebion gan sefydliadau yn y trydydd sector yn canolbwyntio ar effaith y ffioedd cynyddol ar lesiant pobl a'u gallu i dalu am ofal. Nodwyd y byddai'r cynnydd yn draul ychwanegol annioddefol i bobl sydd eisoes yn wynebu anawsterau. Crybwyllwyd rhai grwpiau penodol megis pobl anabl.

*"Mae pobl anabl yn y DU yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac felly'n fwy tebygol o gael eu hamlygu i effeithiau gwaethaf yr argyfwng costau byw "*

Yn ychwanegol at hyn, teimlwyd bod y trefniadau presennol ar gyfer codi ffioedd am ofal, asesiadau ariannol a phrofion modd yn cael eu cymhwyso'n annheg at rai pobl, a bod angen adolygu'r broses gyfan.

Roedd sawl un o'r sylwadau hefyd yn canolbwyntio ar y ffordd y gall y ffi uwch effeithio ar y ffordd y mae pobl yn defnyddio gofal ac yn cael mynediad ato. Disgrifiodd rhai o'r sylwadau sut mae pobl yn osgoi cael gofal cymdeithasol oherwydd y costau cysylltiedig, ac y gall hyn o bosibl arwain at oedi cyn cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol ac ar ôl iddynt ddatblygu anghenion mwy cymhleth neu ddwys. Gall hyn arwain at gostau uwch am ddarparu gofal yn yr hirdymor.

Yn olaf, cyfeiriodd llawer o'r sylwadau a gyflwynwyd hefyd at y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol a'r uchelgais i wneud gofal cymdeithasol am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. Teimlwyd bod cynyddu'r ffi wythnos yn mynd yn groes i'r uchelgais hon ac y gallai'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir i weithredu'r newid gael eu defnyddio mewn ffordd well ar gyfer pethau eraill.

**Ymateb Llywodraeth Cymru a'r Camau Nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Gan ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus a'r effeithiau posibl, rydym wedi penderfynu ybydd tri phrif faes ffocws o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Yn gyntaf, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i gynnal uchafswm y tâl ar £100 yr wythnos, felly ni fydd unrhyw gynnydd yn berthnasol ar hyn o bryd.

Yn ail, bydd swyddogion yn mynd ati i ymdrin ag anghysondebau o ran gweithredu'r drefn codi ffioedd, i ystyried a ellid mabwysiadu dull cydwasanaethau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol,

Yn olaf, mae'r Gweinidogion wedi cytuno i ddyrannu £2.5m o gyllid I Awdurdodau Lleol ar gyfer eleni gyda £5m y flwyddyn nesaf ac wedi hynny. Bydd y £5m ychwanegol y flwyddyn yn adlewyrchu na fydd uchafswm y tâl yn cynyddu ar hyn o bryd. Mae'r Cabinet yn cytuno bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y setliad Tai a Llywodraeth Leol ar gyfer 25/26, a bydd yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw.